nofitstate circus

Blwyddyn 2025

ionawr

Rhaglen y Gaeaf

Fe wnaethom ni barhau â'n rhaglen aeaf o weithgareddau syrcas a chrefftau am ddim yn Four Elms. Croesawyd aelodau o'r gymuned leol o bob oed a chryfhau ein gwaith ym meysydd cyfiawnder cymdeithasol, a chymuned a chyd-greu.

Partneriaeth y Filltir Sgwâr

Tyfodd Partneriaeth y Filltir Sgwâr i gynnwys 23 o sefydliadau. Croesawyd partneriaid newydd fel Menter Caerdydd, Rubicon Dance, Ministry of Life, partneriaeth SAFE Cyngor Caerdydd a Willow Cluster, Dwyrain Caerdydd, fel y gallem roi mwy o bwyslais ar gymuned a chyd-greu.

Dosbarthiadau Cymraeg

Mae staff NoFit State Circus wedi dal ati â'u dosbarthiadau Cymraeg mewn partneriaeth â staff Oasis, gan adlewyrchu'n hymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol, cynhwysiant a gweithio'n ddwyieithog o ddydd i ddydd.

SABOTAGE yn y BIAC ym Marseille, 16 Ionawr - 8 Chwefror

Perfformiwyd SABOTAGE yn y Biennale

Celf Cymraeg

Bu Celf Cymraeg, prosiect Cymraeg ym maes y celfyddydau creadigol yn NoFit State, yn cefnogi oedolion ifanc 18+ oed i ddatblygu eu sgiliau trwy fyw-luniadu aelodau o'r gymuned syrcas a drag gan hybu cymuned a chyd-greu, a chyfiawnder cymdeithasol.

Foreigner In My Body R&D

Cynhaliwyd ymarferion ac amser datblygu creadigol ar gyfer prosiect Sara Hartel, Foreigner In My Body, yn Four Elms, gan gefnogi arweinyddiaeth yn y sector a meithrin lleisiau a safbwyntiau newydd ym maes syrcas gyfoes.

CCB a Cabaret, 21 Chwefror

Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) bob blwyddyn. Rydym yn adrodd wrth ein haelodau beth y buom yn ei wneud a beth yw'n cynlluniau. Hefyd, cynhaliwyd cabaret y syrcas gymunedol 'Spring in Wales', gyda bwyd, cerddoriaeth a bar.

Chwefror

Internationale des Arts du Cirque ym Marseille. Dyma'r ŵyl fwyaf yn y byd ym maes syrcas gyfoes ac mae'n enwog am roi llwyfan i waith syrcas rhyngwladol blaengar ac arloesi â gwaith newydd.

Dangosiad o Circus of Tomorrow

Croesawyd cynulleidfaoedd i ddangosiad arbennig o Circus of Tomorrow yn Four Elms, Caerdydd, gan gyfrannu at ein gwaith ym maes arweinyddiaeth y sector a datblygu sgiliau trwy rannu syrcas â'n cymuned.

Gweithgareddau Gwyliau Hanner Tymor Chwefror

Buom yn partneru â mudiadau lleol i gynnig gweithgareddau am ddim yn ystod gwyliau hanner tymor Chwefror: syrcas, dawns, gwyddoniaeth, celf a chrefft. Dyma gyfleoedd chwareus a hygyrch i deuluoedd lleol, yn unol â'n nodau o ran cyfiawnder cymdeithasol a chyd-greu.

Cwrs Gwaith Ieuenctid

Cynhaliwyd cwrs gwaith ieuenctid ar gyfer aelodau'r gymuned a staff yn Four Elms fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i hybu datblygiad proffesiynol.

Gosod Paneli Solar yn Four Elms

Ar ôl sicrhau cyllid, gosodwyd 49 o baneli solar ar do ein canolfan yn Adamsdown, Caerdydd yn unol â'n polisi ar effaith amgylcheddol.

Clyweliadau Drymio

Cynhaliwyd clyweliadau er mwyn recriwtio drymiwr ar gyfer ein sioe awyr agored, BAMBOO.

Lifft platfform newydd yn Four Elms

Gosodwyd lifft platfform newydd i wneud adeilad ein swyddfa yn Four Elms yn fwy hygyrch ar ôl sicrhau cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Mawrth

Dangosiad o Foreigner In My Body

Cynhaliwyd dangosiad a gwaith datblygu creadigol ar gyfer prosiect Sara Hartel, Foreigner In My Body, yn adeilad Four Elms.

Record Byd

Yr efeilliaid Grace a Clementine Tonkin Wells sy'n dal Record Byd Guinness am y daliad trapîs am yr amser hiraf yn hongian o droed i droed, sef 5 munud. Gwnaethant hyn yn adeilad Four Elms.

Ymarferion Bamboo yn y Big Top yn Henffordd (ar 25 Mawrth)

Cynhaliwyd ymarferion cyntaf ein sioe awyr agored BAMBOO, gyda Mish Weaver yn cyfarwyddo, yn y Big Top yn Henffordd. Cafwyd cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Sefydliad Foyle a Without Walls i greu'r cynhyrchiad awyr agored newydd a gomisiynwyd gan y Stockton International Riverside Festival, Norfolk & Norwich Festival, yr Hat Fair a'r Timber Festival.

Dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod gyda 'Bridging the Gap'

Daeth Rowan Whitehead, sylfaenydd 'Bridging the Gap', sy'n fudiad ffeministaidd ar-lein, i gyflwyno'u hail 'Show & Social' ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn Four Elms.

Gweithgareddau Gwyliau'r Gwanwyn

Buom yn cydweithio â mudiadau lleol i gyflwyno gweithgareddau gwyliau'r gwanwyn: syrcas, dawns, celf a chrefft, a LEGO. Roedd cyfleoedd creadigol am ddim i'r gymuned leol, gan hybu ein blaenoriaethau o ran cyfiawnder cymdeithasol, a chymuned a chyd-greu.

Prosiect cerddoriaeth Tafwyl

Cychwynnwyd prosiect cerddoriaeth Tafwyl gan Stacey Blythe gydag Ysgol Gynradd St Albans mewn partnership â Menter Caerdydd.

Ebrill

Hyfforddiant Cymorth Cyntaf

Bu staff y cwmni a sefydliadau partner yn cymryd rhan mewn hyfforddiant cymorth cyntaf ar y cyd, gan fagu hyder gyda'i gilydd mewn cadw cyfranogwyr yn ddiogel.

Ichi 'N'Chatu

Roedd Ichi 'N'Chatu, sef perfformiad cymunedol yn Lusaka a grëwyd gyda Circus Zambia a Zukani Action Zambia, yn cysylltu gweithredu dros yr hinsawdd, arweinyddiaeth y sector a chyfiawnder cymdeithasol trwy gydweithio rhyngwladol.

Gweithdai Syrcas yn Weston-Super-Mare

Bu Athrawon Celfyddydau Cynhwysol y Syrcas (ICATs) yn rhedeg gweithdai syrcas yn Weston-Super-Mare yn y cyfnod cyn Gŵyl Whirligig.

Sesiynau Wythnosol ar ôl Ysgol

Cynhaliwyd sesiynau syrcas wythnosol ar ôl ysgol gyda diod a snacs am ddim yn NoFit State Circus, gan greu gofod croesawus ar gyfer pobl leol a hybu cyfiawnder cymdeithasol, a chymuned a chyd-greu.

Gweithgareddau Gwyliau Hanner Tymor mis Mai

Daliwyd ati i gydweithio â mudiadau lleol i gyflwyno gweithgareddau i'n cymuned leol yn ystod gwyliau Mai: syrcas, chwarae, a chelf a chrefft. Cafodd teuluoedd lleol gyfleoedd creadigol a hygyrch yn cyfateb i'n hamcanion ni o ran cyfiawnder cymdeithasol.

Taith BAMBOO yn Cychwyn

Peterborough Celebrates, 17 Mai
Barnsley Garden Party, Barnsley 24 Mai
The Culture House, Cleethorpes 26 Mai
Out There Festival, Great Yarmouth, 30 - 31 Mai

CIRCO STRADA

Mai

Castio ar gyfer Sioe'r Big Top 2026

Dechreuwyd castio perfformwyr ar gyfer sioe newydd sbon y Big Top fydd yn mynd ar daith yn 2026.

Ymarferion SABOTAGE

Dechreuwyd ymarfer ar gyfer sioeau SABOTAGE 2025 yn y Big Top, Henffordd.

Preswyliad Creadigol ar gyfer y Sioe Newydd Nesaf

Dechreuwyd cynnal preswyliadau ar gyfer sioe newydd sbon y Big Top, sy'n mynd ar daith yn 2026.

EUROPEAN NETWORK FOR CONTEMPORARY CIRCUS AND OUTDOOR ARTS

Cynhadledd FRESH Street Circostrada

Bu Dann, Tom, Mish ac Orit yng Nghynhadledd FRESH Street Circostrada; Great Yarmouth 28-30 Mai.

Codi Arian mewn Ceilidh gyda'r Wiwer Werdd

Trefnwyd Ceilidh i godi arian yn NoFit State gan nifer o bartneriaid trwy'r Wiwer Werdd. Roedd hyn yn cadarnhau ein rôl fel hyb creadigol a'n gwaith yn hybu cymuned a chyd-greu.

Dathlu Wythnos Ffoaduriaid

Buom yn cydweithio â phartneriaid cymunedol lleol, yn cynnwys Cyngor Ffoaduriaid Cymru, i ddathlu Wythnos Ffoaduriaid drwy gynnal gweithgareddau yn yr ardal o 17 i 23 Mehefin, gan hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol.

Gweithdai Syrcas Cymraeg yn Nhafwyl

Mehefin

SABOTAGE yn Henffordd, 23 Mai - 8 Mehefin

Cychwynnodd taith SABOTAGE 2025 yn Henffordd gydag 13 o berfformiandau disglair i gynulleidfaoedd o bron 7000.

SABOTAGE yn Basingstoke 20 - 29 Mehefin

Perfformiwyd SABOTAGE yn Basingstoke am y tro cyntaf erioed, fel rhan o Ŵyl Basingstoke 2025 i gynulleidfaoedd o bron 5000.

Taith BAMBOO

Gŵyl Whirligig, Weston-super-Mare
7 - 8 Mehefin
Gŵyl Glastonbury 27 - 29 Mehefin

Bu Athrawon Celfyddydau Cynhwysol y Syrcas (ICATs) yn rhedeg gweithdai syrcas Cymraeg yn Nhafwyl.

Ymarferion gyda Zoe Munn ar gyfer yr Eisteddfod/Cirque Bijou

Cynhaliwyd ymarferion gyda Zoe Munn ar gyfer yr Eisteddfod/Cirque Bijou yn adeilad Four Elms.

SABOTAGE yn Galway
11 - 27 Gorffennaf

Cafodd ein sioeau gychwyn da yn Galway, Iwerddon, fel rhan o Ŵyl Gelfyddydau Ryngwladol Galway, sef corff diwylliannol o bwys sy'n cyflwyno un o brif wyliau celfyddydau Ewrope. Roedd SABOTAGE yn llwyddo i lenwi'r Big Top.

Dechrau dosbarth Acrobateg newydd

Rhoddwyd cychwyn ar ddosbarth Acrobateg newydd gyda chriw croesawus a chyfeillgar. Y nod oedd dysgu gwahanol sgiliau acrobateg a thriciau corfforol y cynnwys twmblo, olwyn dro, llawsefyll a mwy, gan ehangu'r llwybrau i syrcas a chymryd rhan rheolaidd.

Gorffennaf

Perfformiadau Cymraeg yn Nhafwyl

Bu Stacey Blythe yn arwain perfformiad Cymraeg gan Ysgol Gynradd St Albans ac Ysgol Glan Morfa yn Nhafwyl mewn partneriaeth â Menter Caerdydd.

Hyfforddiant achub

Cynhaliwyd hyfforddiant achub ar gyfer y staff yn adeilad Four Elms.

Taith BAMBOO

Bell Square, Hounslow, 5 Gorffennaf
Gŵyl Gelfyddydau Cairde Sligo, Iwerddon
11 - 12 Gorffennaf
Gŵyl Gelfyddydau Earagail Arts, Leitir Ceanainn, Ireland
13 - 14 Gorffennaf 2025
IF: Gŵyl Rhyngwlado Milton Keynes 2025
18 - 20 Gorffennaf
GL4, Caerloyw 26 Gorffennaf
La Strada, Awstria 29 Gorffennaf - 2 Awst



Awst

SABOTAGE yng Nghernyw 15 - 31 Awst

Perfformiwyd SABOTAGE yng Nghernyw, mewn partneriaeth â The Ladder ac roedd yn wych cael perfformio i 8000 o drigolion yr ardal.

Taith BAMBOO

Gŵyl Sziget, Budapest, 6 Awst - 11 Awst
Sir Harold Hillier Gardens, Romsey 20 - 21 Awst
Gŵyl Greenbelt, Kettering 23 - 24 Awst
BAMBOO yn y Brownfield Parklet, Stoke 28 Awst
Bamboo-Castle, Newcastle-under-Lyme 29 Awst
Harbour Festival, Whitehaven 30 Awst

30 mlynedd o Wirfoddolwyr

Splott Community Volunteers

Rhaglen Gwyliau'r Haf - Estyniad o'r Play Action Group

Buom yn cydweithio â saith partner lleol gan gomisiynu artistiaid a grwpiau i gyflwyno rhaglen o weithgareddau di-dâl Hwyl yr Haf, ar y thema bambŵ, mewn 12 lle yn Sblot, Adamsdown a Thremorfa. Roedd yno sesiynau chwarae, gweithdai canu a dawnsio, syrcas, rhedeg rhydd, celfyddydau gwyllt a chwedlau natur gan gyfuno themâu cyfiawnder cymdeithasol, cymuned a chyd-greu a gweithredu ar yr hinsawdd.

Diwrnod Rhyngwladol Chwarae

I ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Chwarae, bu ICATs yn rhedeg gweithdy syrcas yng Nghaeau Anderson yn unol â'n nodau o ran cymuned a chyd-greu.

UCU University and College Union

Digwyddiad UCU i Godi Arian

Croesawyd cangen Caerdydd o'r Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU) i gynnal 'digwyddiad gwib-fachu ffrindiau' i godi arian ar gyfer cronfa'r streic.

Cymunedol Sblot

Roeddem yn un o'r partneriaid mewn digwyddiad i ddathlu 30 mlynedd o waith cymunedol a chyd-greu gan Wirfoddolwyr Cymunedol Sblot, gyda gweithdai syrcas.

SABOTAGE yng Nghaerdydd 12 - 28 Medi

Daeth SABOTAGE adre i Gaerdydd gan berfformio i 7000 o bobl.

Gŵyl Parc Fest – Tir Cyffredin

Roedd Gŵyl Parc Fest – Tir Cyffredin yn ddathliad di-dâl o gelfyddydau, diwylliant a chymuned anhygoel yr ardal. Cafodd ei chreu gan ac ar gyfer pobl Adamsdown, Sblot a Thremorfa. Dechreuodd y diwrnod â pharêd i lawr Stryd Clifton, i'r ŵyl yng Nghaeau Anderson gyda syrcas, cerddoriaeth, perfformiadau, bwyd a chelf a chrefft. Parodd yr ŵyl o 12:30 tan 17:00 a chafwyd diwrnod llawn hwyl.

Medi

Osian Meilir R&D

Cynhaliwyd ymarferion Mari Ha!, perfformiad a ysbrydolwyd gan draddodiad y Fari Lwyd, yma.

R&D ar gyfer Gŵyl Parc Fest

Rhoddwyd llwyfan i waith ymchwil a datblygu Gŵyl Parc Fest gydag aelodau dosbarthiadau, gan gryfhau ein gwaith cymunedol a chyd-greu.

Artworkers Cabaret yn Citrus Arts

Bu rhai o'r myfyrwyr a'r athrawon yn perfformio yn yr Artworkers Cabaret yn Citrus Arts, a drefnwyd gan ddau o'n myfyrwyr.

Taith BAMBOO

Rotherham Show, 6 - 7 Medi
Festival of Thrift, 20 - 21 Medi
Gŵyl Stryd Ettelbrooklyn, Lwcsembwrg
27 Medi

SABOTAGE yn creu gydag Artistiaid

Cynhaliwyd digwyddiad SABOTAGE: Creu gyda'r Artistiaid yn adeilad Four Elms.

BAMBOO Summit 2025

Ar 10 Hydref, cynhaliwyd BAMBOO Summit y DU, 2025 yn Stoke-on-Trent – y digwyddiad cyntaf i'w gynnal ar safle hanesyddol y Vaults yn y Goods Yard. Fe'i croesawyd gan Brilliant Bamboo, mewn cydweithrediad ag Orit Azaz, Cyfarwyddwr Creadigol Imagine Bamboo. Daeth 100 o bobl i'r safle a chymerodd 125 o bobl ran ar-lein. Bu siaradwyr a chyfranwyr o bob cwr o'r byd yn sôn am waith sy'n digwydd yn y Deyrnas Unedig.

Circus Change UP

Hydref

Gweithdai Syrcas yn Llamau

Cynhaliodd ICATs weithdai syrcas yn y Diwrnod Hwyl i'r Teulu, Llamau ac mewn digwyddiad i denantiaid gan CCHA. Defnyddiwyd syrcas i hybu cyfiawnder cymdeithasol.

Gweithdy Cyflwyniad i Syrcas

Cynhaliwyd Gweithdai Cyflwyniad i Syrcas yn y Big Top tra oedd yng Nghaerdydd.

Gweithgareddau Hanner Tymor yr Hydref

Yn ystod gwyliau hanner tymor yr Hydref, buom yn cydweithio â mudiadau lleol i gyflwyno cyfres o weithgareddau gwyliau di-dâl gyda'n cymuned leol. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys syrcas, clybiau gwyliau, a chelf a chrefft i gadw'r gymuned yn brysur ac i'w difyrru dros y gwyliau hanner tymor!

Cynhadledd Circus Change Up

Aeth Dann a Tom i gynhadledd undydd Circus Change Up ym Mryste ar 11 Hydref. Bu sector y syrcas yn trafod dyfodol cefnogaeth i'n sector ym Mhrydain.

Gweithdy syrcas gydag Oasis

Cynhaliodd ICATs weithdy syrcas ar gyfer ffoaduriaid o Affganistan mewn partneriaeth ag Oasis, gan gynnig gofod croesawus, creadigol sy'n cyfateb i'n blaenoriaethau o ran cyfiawnder cymdeithasol, a chymuned a chyd-greu.

Gweithdy Syrcas gyda TGP Cymru

Cynhaliodd ICATs weithdy syrcas gyda TGP Cymru ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches ifanc digwmni, gan ddefnyddio syrcas i feithrin hyder, cysylltiad a hybu cyfiawnder cymdeithasol.

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Tachwedd

Gweithdy Syrcas a Gwydnwch Iechyd Meddwl ar gyfer TGP, Olga Kaleta

Croesawyd Gweithdy Syrcas a Gwydnwch Iechyd Meddwl ar gyfer TGP, dan arweiniad Olga Kaleta, i Four Elms. Archwiliwyd sut y gall sgiliau syrcas hybu llesiant a chyfiawnder cymdeithasol yn ein cymuned.

Dosbarth Meistr Strapiau gyda Clara Laurent

Dosbarth Meistr Strapiau gyda Clara Laurent Ar 17 Hydref, cynhaliwyd dosbarth meistr strapiau o dan arweiniad Clara Laurent yn adeilad Four Elms.

Adolygiad o'r Rhaglen 'Cymryd Rhan am Ddim'

Cawsom ddiwrnod i adolygu'r rhaglen 'cymryd rhan am ddim' gyda'r holl ICATs, Cefnogwyr Cymunedol a gwirfoddolwyr er mwyn cynllunio beth i'w wneud nesaf yn 2026.

Gweithdy Gwrthsefyll Polareiddio yn ein Cymunedau

Fe wnaethom ni groesawu gweithdy pecyn cymorth Gwrthsefyll Polareiddio yn ein Cymunedau. O dan arweiniad Dr Amy Sanders, ystyriwyd sut y gall ein rhaglen ni hybu cyfiawnder cymdeithasol, cynhwysiant a chysylltiad yn lleol.

Rhagfyr

Cynlluniau ar gyfer 2026

- Cynllunio ar gyfer taith BAMBOO yn 2026 a sioe newydd y Big Top.
- Gwnaeth aelodau'r rhaglen ddosbarthiadau sioe fach i ddangos popeth yr oeddent wedi'i ddysgu i'w ffrindiau a'u perthnasau mewn dathliad Nadolig.

Diolch i gefnogaeth ein harianwyr hael:

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Supported using public funding by
ARTS COUNCIL ENGLAND

CARDIFF
CAERDYDD

ccha

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

FOYLE FOUNDATION

Garfield Weston
FOUNDATION

The Gibbs Trust
www.gibbstrust.org.uk

HODGE FOUNDATION

Esmée Fairbairn
FOUNDATION

The Moondance Foundation

Oakdale
Trust

menter caerdydd

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Cronfa Deddf Eglwysi Cymru
Welsh Church Acts Fund

WcVA
CgGC

Diolch i'r cyfranwyr unigol am ein cefnogi ar hyd ein taith.

Mae’r trawsnewidiad a welsom dros y flwyddyn ddiwethaf a’r effaith a gawsom yn y cyfnod hwn wedi cryfhau ein hymrwymiad i fynd ati mewn ffordd rymus i ysgogi newid.